# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 25AIN TACHWEDD, 2021**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00 y.b.

Lleoliad

**Yn Rhithiol - Zoom**

Mynediad i'r cyhoedd - cysylltwch i gael mynediad o.g.y.dd.

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 19 Tachwedd 2021)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**AELODAETHP (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Annwen Daniels
Gareth Tudor Morris Jones
Olaf Cai Larsen
Berwyn Parry Jones
Beca Brown
Alan Jones Evans
Linda Ann Jones
Dafydd Owen
Linda Morgan

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Dewi Wyn Roberts
Richard Medwyn Hughes
Beth Lawton
Angela Russell

## LLais Gwynedd (3)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

## Propel (1)

Y Cynghorydd Peter Read

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2021 fel rhai cywir.

## 5. STRATEGAETH AWTISTIAETH 11 - 18

I ddarparu trosolwg o'r Cynllun Awtistiaeth 2021-23 o fewn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL
# 30/09/2021

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
Menna Baines, Beca Brown, R Medwyn Hughes, Gareth Tudor Morris Jones, Olaf Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Owen, Dewi Wyn Roberts

**Swyddogion yn bresennol:**

Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Einir Rhian Davies (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Carys F Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo), Hedd M Tomos (Rheolwr Cyflenwad Tai, Adran Tai ac Eiddo)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Pherthynas gyda'r Gwasanaeth Iechyd), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Rhion Glyn, (Uwch Reolwr Busnes, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Hawis M Jones (Rheolwr Tîm Prosiectau, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a Pherthynas gyda'r Gwasanaeth Iechyd), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Mannon E Trappe (Uwch Reolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Anwen Daniels, Y Cynghorydd Anwen J Davies, Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Y Cynghorydd Linda Morgan a’r Cynghorydd Elwyn Jones (aelod ex-officio)

## 2. DATGAN BUDDIANT

Y Cynghorydd Cai Larsen ar eitem 5 gan ei fod yn eistedd ar Fwrdd Adra.

Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ar eitem 5 gan ei fod yn denant i Adra.

Y Cynghorydd Gareth Tudor Morris Jones ar eitem 7 oherwydd bod aelod o’r teulu yn derbyn gofal yn un o Gartrefi Nyrsio Gwynedd.

Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ar eitem 7 oherwydd bod ei wraig yn derbyn gwasanaeth gofal cartref yng Ngwynedd.

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2021 fel rhai cywir.

**5. SIOP UN STOP TAI**

Cyflwynwyd yr adroddiad Siop Un Stop gan y Pennaeth Adran, gyda chais am fewnbwn Aelodau y Pwyllgor ar gychwyn y broses ymgynghori, gan gyfeirio at y Siop Un Stop fel mynedfa i drigolion Gwynedd i gael cymorth gyda eu hanghenion tai.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod cael gwybodaeth o bersbectif Cynghorwyr yn bwysig iawn o ran deall anghenion lleol, ynghyd a chael cartrefi unigolion yn y llefydd cywir.

Diolchwyd am yr adroddiad a chydnabuwyd ei bod wedi bod yn gam positif i adnabod y broblem, gan fod ymdeimlad ymysg aelodau bod nifer o dai cymunedol mewn rhai wardiau a nifer o unigolion ar restrau aros. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau, a nodwyd yr ymatebion fel a ganlyn :

O ran y pryder bod pobl sydd eisoes yn fregus yn cael problemau megis cwblhau ffurflenni, ddim yn siŵr a phwy i gysylltu pan fo amgylchiadau yn newid a ddim yn derbyn diweddariad, nodwyd balchder y bydd y drefn Siop Un Stop yn symleiddio ac ymateb i'r pryderon hyn. Cadarnhawyd y bwriad i'r Siop Un Stop fod yn rhagweithiol gan gadw gwell cyswllt, ac yn ôl Y Pennaeth Tai ac Eiddo yn gafael yn llaw trigolion a cheisio datrys problemau mewn un man.

Holiwyd am fanylder y 33 prosiect y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad gan gwestiynu y bwriad mewn ardaloedd penodol a'r amserlen. Cadarnhaodd y Pennaeth Tai ac Eiddo bod llawer o waith yn digwydd yn y cefndir, megis ar dir sydd yn berchen i'r Cyngor, gan gadarnhau y bydd adroddiad gerbron Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor maes o law, fydd yn cynnwys amserlen ddrafft.

Nodwyd bod yr egwyddor o Siop Un Stop yn wych a chadarnhawyd y bydd popeth ar gael ar lein/yn electroneg ac y bydd unrhyw ddiweddariadau i gais yn cael eu gwneud yn electroneg fydd, o ganlyniad, yn gwella y cyfathrebu.

Adroddwyd bod y Trydydd Sector yn awyddus i fod yn rhan o drefniant o'r math.

Soniwyd eto am gymhlethdod y drefn bresennol, ond nodwyd pryder am yr ymdeimlad bod prinder llefydd i unigolion fyw, ac y byddai gwneud y llwybr ymgeisio yn haws iddynt yn werthfawr, ond os nad oes tai iddynt, yna mae hon yn broblem arall. Cadarnhawyd y bydd y Cynllun Gweithredu Tai wrth gwrs yn ymateb rhywfaint i'r sefyllfa, ond bod llawer o waith cydgordio i'w wneud rhwng y Cyngor a Chymdeithasau Tai. Gan fod y nifer sydd yn ddigartref yn uchel iawn cwestiynwyd y trefniant i ddod ac eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, gan nodi dymuniad Aelodau i gael gwybod am unrhyw dai gweigion yn eu Wardiau.

Nodwyd pwysigrwydd staffio Siop Un Stop Tai yn briodol, gyda gwybodaeth yn cael ei gadw mewn un man.

Cadarnhawyd bod mewnbwn nid yn unig yr Aelodau ond Aelodau Seneddol Cymru a'r DU yn hanfodol ar gychwyn y broses, gan fod unigolion hefyd yn cysylltu gyda eu Aelodau eneddol.

Rhoddwyd cefnogaeth y Pwyllgor ar y ffordd ymlaen a diolchwyd i'r Swyddogion am y gwaith.

**PENDERFYNWYD** : Derbyn yr adroddiad ynglŷn a'r cysyniad o sefydlu Siop Un Stop Tai ac adnabod y camau nesaf, gan ofyn i'r Adran roi sylw i'r pwyntiad a godwyd.

**6. ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad ar y dull paratoi ar gyfer cwblhau yr Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd gan y Rheolwr Tîm Prosiectau. Nododd bod yr amserlen yn heriol oherwydd bod materion yn ymwneud a'r pandemig wedi gorfod cymryd blaenoriaeth a bod swyddogion wedi eu dargyfeirio. Pwysleisiodd pwysigrwydd yr adroddiad gan nodi ei bod angen adlewyrchu yn glir a chywir ofynion pobl, a bod y dogfennau yn gallu bod yn sail i geisiadau am grantiau. Adroddodd ymhellach bod gofyn yn y Ddeddf i gyhoeddi adroddiadau ar sail rhanbarth, ac o ganlyniad bod angen bwydo gwybodaeth Gwynedd i mewn i adroddiad y rhanbarth. Yn sgil yr amserlen dynn, cynigwyd bwydo cymaint o wybodaeth a phosib i'r adroddiad erbyn diwedd Hydref 2021, gan ddefnyddio y wybodaeth sydd yn wybodus eisoes, ac yna parhau gyda y gwaith. Cadarnhawyd bod y Llywodraeth yn trin y ddogfen fel dogfen barhaus.

Atgyfnerthodd yr Uwch Reolwr Busnes ei bod yn amserlen heriol iawn, ond bod cwblhau yr Asesiad yn ofyn statudol. Nododd bod adrodd fel rhanbarth yn heriol, gan fod y 6 Awdurdod gyda nodweddion gwahanol iawn, ond mai un Bwrdd Iechyd oedd ar gyfer y 6 Rhanbarth.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau, a nodwyd yr ymatebion fel a ganlyn :

Nodwyd pryder bod yr Asesiad Anghenion yn holi am lawer o faterion pwysig ar gyfer y dyfodol a'r amserlen ar gyfer ymateb yn dynn. Cadarnhawyd bod ymateb yn Ofyn Statudol yn ôl Ddeddf Llesiant 2021 a bod yr asesiad cyntaf wedi ei gyhoeddi yn 2017. Cadarnhawyd bod yr Adran wedi bod yn gweithio arno ers 6 mis erbyn hyn gan nodi ei bod yn bwysig cadw golwg ar y dyfodol hir dymor.

Cadarnhawyd nad oedd ffigyrau poblogaeth ar gael ar hyn o bryd gan mai cyflwyno y dull o gwblhau yr Asesiad Anghenion yn unig oedd y papur. Nodwyd bod cydweithio gyda y Bwrdd Iechyd weithiau yn gallu bod yn sialens, ond bod cysylltiadau mewn lle ar gyfer y darn hwn o waith.

Nodwyd y pryder am y diffyg gwlâu gofal nyrsio yng Ngogledd Cymru a chynlluniau rhyddhau o'r ysbyty yn sgil y ffaith bod pobl yn byw yn hyn, ynghyd a gallu y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i ymateb i'r Asesiad Anghenion a materion Covid ac ar ben hyn materion iechyd meddwl.

Diolchodd yr Aelod Cabinet am y sylwadau defnyddiol, gan gyfeirio at y themâu yn y sylwadau o ran pa mor anodd yw gwneud y gwaith o rhagweld 10 mlynedd. Nododd bod rhai materion sydd angen ymchwil pellach, a bod rôl ehangach yma i geisio crynhoi profiadau gwahanol o un rhan o'r sir i'r llall.

**PENDERFYNWYD :** Derbyn y dull a gyflwynwyd ar gyfer paratoi Asesiad Anghenion Poblogaeth 2022-2027, gan gydnabod yr heriau sydd yr ynghlwm a'r amserlen.

**7. Y GWASANAETH SICRWYDD ANSAWDD O FEWN YR UNED DIOGELU**

Cyflwynwyd yr adroddiad ar y Gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd o fewn yr Uned Diogelu gan yr Uwch Reolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd. Bwriad yr eitem oedd manylu ar y ffordd mae y Cyngor yn monitro darpariaethau gofal oedolion y Sir, sydd yn cynnwys ystod o sefydliadau. Rhoddwyd trosolwg o waith y tîm. Nodwyd y pryder bod y Gwasanaeth yn gyfrifol am fonitro nifer o sefydliadau ond dim ond wedi llwyddo i fonitro nifer cyfyngedig a heb fedru ymweld â'r gwasanaeth gofal cartref na gofal dydd. Yn ychwanegol, yn ystod cyfnod Covid nodwyd nad yw'r ymweliadau dirybudd wedi gallu digwydd fel y byddai yn arferol ond yn hytrach, bod y staff wedi gwneud cysylltiadau ffon gyda'r darparwyr.

Adroddwyd bod pum cartref wedi mynd o dan y drefn Pryder Cynyddol dros y 18 mis diwethaf. Mae'r Tim Sicrwydd Ansawdd wedi gweithio gyda pob un i baratoi a gweithredu rhaglenni gwella er goresgyn problemau a gwella ansawdd gwasanaethau gofal. Un o effeithiau posib y broses yw gosod embargo ar rai mynediadau, sydd yn ei dro yn cael effaith ar unigolion a'u teuluoedd ac wrth gwrs diffyg arian yn dod i mewn i gynnal y busnes. Adroddwyd hefyd bod tri cartref yng Ngwynedd wedi cau dros y 2 flynedd diwethaf.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd at Adroddiad 'Winterbourne View', ac adroddwyd bod diffyg monitro yn ffactor yma, ynghyd a diffyg trosolwg gan y Comisiynwyr.

Cadarnhawyd mai pob tua dwy flynedd mae yr ymweliadau i safleoedd yn cymryd lle ar hyn o bryd, ond yn ddelfrydol mae angen ymweld pob chwe mis. Nodwyd pan mae problem yn codi, mae ymweliadau yn cymryd lle i geisio atal safle rhag mynd o dan y drefn Pryderon Cynyddol. Tra mae hyn yn gwbl angenrheidiol mae yn cael effaith ar allu'r tîm i fonitro gwasanaethau eraill.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau, a nodwyd yr ymatebion fel a ganlyn :

Nodwyd pryder bod pum gwasanaeth wedi bod dan y drefn pryderon cynyddol, ynghyd a'r gwahaniaeth enbyd rhwng amlder ymweliadau Cyngor Gwynedd ac awdurdod cyfagos. Cwestiynwyd a oes ffordd i ddargyfeirio mwy o adnoddau, bo hynny yn arian neu adnodd arall i gryfhau'r gwasanaeth. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd, yn dilyn achos o bryderon cynyddol, mai llunio cynllun datblygu gan roi cyfle i'r gwasanaeth sicrhau gwellianau oedd y cam nesaf. Nododd ei bod yn rhannu y pryder am y diffyg adnoddau a chyfeiriodd at y bid aflwyddiannus a wnaethpwyd yn 2020/21 am gyllideb i gyflogi staff ychwanegol. Nododd y bydd y cais yn cael ei ail gyflwyno eleni.

Nododd Aelod arall ei bod yn sefyllfa anodd, a bod y ffigyrau yn debyg iawn i'r sefyllfa cyn 2016, ond nododd yr Uwch Reolwr Diogelu a Sicrwydd Ansawdd mai y gwahaniaeth erbyn hyn oedd y berthynas dda gyda darparwyr a thimau ardal a'r swyddogion.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth bod y mater ynglŷn â capasiti yn un sylweddol, er ei fod yn derbyn bod rhannu adnoddau i bob gwasanaeth sydd dan bwysau yn heriol. Nododd ei fod yn faes lle byddai modd clustnodi arian a dal bod angen mwy, ond adroddodd ei fod yn falch bod arwyddion cynnar o ran pryderon yn cael sylw yn ddi-oed. Nododd bod adnoddau ar draws yr Adran yn cael eu llyncu pan fo cartref mewn trafferth ac yn tynnu staff i ffwrdd o waith arall. Nododd bod rhai pethau positif wedi datblygu yn ystod y cyfnod Covid, megis mwy o ymddiriedaeth rhwng yr Adran a'r darparwyr.

Nododd bod y newidiadau sydd wedi digwydd ac yn mynd i ddigwydd mewn gofal cartref yn dangos yr angen i fonitro sicrwydd ansawdd yn effeithiol, ond nad oes capasiti i'w wneud yn llawn ar hyn o bryd. Nodwyd nad yw arian dros dro yn cynnig ateb tymor hir. Nododd ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol o waith y tîm, ynghyd ac adborth a dderbynnir gan ddarparwyr, a nododd ei werthfawrogiad bod y tîm yn gwneud pob ymdrech i weithio'n rhagweithiol.

Diolchwyd am adroddiad gonest sydd yn codi pryderon, ond hefyd diolchwyd am y cydweithio da, a'r angen i warchod y cyd-weithio hwn.

Nododd y Pwyllgor eu bod yno i gefnogi ac y byddai yn dda derbyn diweddariad mewn chwe i naw mis er ei bod yn bryder sut i ddatrys rhai materion.

Diolchwyd am yr adroddiad a nodwyd bod cyfleon datblygu gyrfa wedi bod oddi fewn i'r Adran gyda Rheolwr Cartref wedi dod i mewn i'r Tîm, tra bod un aelod o'r tîm wedi symud i fod yn Rheolwr Ardal Darparu.

Atgyfnerthodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant ei bod yn adroddiad gonest ac y byddai y sylwadau yn cael eu hystyried, ynghyd ac opsiynau oddi fewn i'r Adran.

Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad, a nodi y pryder am y mater capasiti gyda'r Cabinet a'r awydd i rywbeth gael ei wneud.

**PENDERFYNWYD :**

1) Derbyn yr adroddiad a oedd yn darparu trosolwg o waith yr Uned Sicrwydd Ansawdd o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
2) Nodi pryder am ddiffyg capasiti staff yr uned a’r risgiau allai godi o ran diogelwch a lles unigolion sy’n derbyn gofal, cynaliadwyedd y farchnad a risgiau i’r Cyngor o ganlyniad i hynny.
3) Y byddai’r Cadeirydd yn anfon e-bost at Aelodau’r Cabinet er mwyn cyfleu pryder y Pwyllgor am y diffyg capasiti staff a’r angen i sicrhau capasiti staff digonol er mwyn cynnig cefnogaeth addas a monitro ansawdd gwasanaethau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 12:25

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **30 Tachwedd 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dilwyn Morgan**<br>**Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Aled Gibbard, Uwch Reolwr** |
| **E-bost Cyswllt:** | **aledwyngibbard@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Awtistiaeth 2021-23** |

## 1 CEFNDIR

1.1 Bydd aelodau eisoes yn ymwybodol bod y maes awtistiaeth yn flaenoriaeth i ni fel Cyngor, ac felly mae hi'n bleser cyflwyno'r Cynllun yma gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal heddiw.

1.2 Mae hi'n fwriad gwneud gwelliannau o fewn y maes, a hyn ar y cyd gyda'n partneriaid allweddol, sef y Bwrdd Iechyd a hefyd Cyngor Ynys Môn.

1.3 Mae'r gwaith yn rhannol wedi ei ddylanwadu gan y gwaith sydd wedi dilyn yn sgil cwyn a wnaethpwyd i'r Cyngor yn ymwneud â gwasanaeth a ddarparwyd. Cyfeiriwyd y gŵyn at yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus, a bu i'r Ombwdsman roi argymhellion i ni fel Cyngor. Mae'r Cynllun hwn felly wedi ceisio ymateb i'r dysgu o'r gŵyn ynghyd ag argymhellion yr Ombwdsman, ac mae'n bwysig nodi ein hymrwymiad parhaus i geisio gwella ein gwasanaeth mewn ymateb i farn ein defnyddwyr.

1.4 Rhan allweddol arall sydd wedi digwydd er mwyn sicrhau ein bod yn creu Cynllun Awtistiaeth gyda'r sylfaen cywir, oedd comisiynu Ymgynghorydd allanol (sef Hugh Morgan, arbenigwr amlwg iawn ym maes anabledd dysgu ac awtistiaeth yma yng Nghymru), i gynnal adolygiad cynhwysfawr amlasiantaethol ar y maes, gan lunio i ni ei farn ar beth oedd angen newid a datblygu.

1.5 Gofynnwyd iddo ganolbwyntio yn benodol ar y meini prawf ar gyfer derbyn gwasanaeth; y broses asesu; mynediad i blant a phobl ifanc gydag awtistiaeth â gallu uchel, awtistiaeth a dim anabledd dysgu, a'r cyfnod trosglwyddo i wasanaethau oedolion. Y bwriad oedd creu cynllun a fyddai'n sicrhau fod y plant a'r bobl ifanc yn cael mynediad at gefnogaeth wedi ei deilwra at eu hanghenion unigol.

1.6 Bu adolygiad yr ymgynghorydd felly'n allweddol i ni ar gyfer datblygu'r Cynllun Awtistiaeth sydd gerbron heddiw.

1.7 Mae'n bwysig tynnu sylw aelodau hefyd at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ymgynghorol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth. Daeth y Cod Ymarfer hwn i rym ym mis Medi eleni. Mae gwaith yr ymgynghorydd wedi rhoi ystyriaeth i'r Cod Ymarfer wrth gwblhau'r adolygiad. Mae'r Cod yn gofyn

am Gynllun Awtistiaeth Lleol yn ogystal â’r angen i’w adolygu’n flynyddol, felly fel Cyngor ac isranbarth, byddwn mewn lle da o ran y Cod Ymarfer o gael y Cynllun yma wedi ei mabwysiadu ac yn weithredol.

1.8 Er i’r gwaith cychwynnol ddechrau o gyfeiriad Gwasanaeth Derwen (sef gwasanaeth integredig Mon a Gwynedd i blant anabl a phlant sy’n wael), un rhan o ddarlun mawr yw y gwasanaeth yma. Nid oes modd ei ystyried fel endid ar wahân i’r holl wasanaethau cyhoeddus sydd yn ymwneud â maes gwaith awtistiaeth. Mae adolygiad yr Ymgynghorydd yn cadarnhau bod gan Gwasanaeth Derwen (Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys a Seicolegwyr) arbenigedd a dealltwriaeth dda o blant a phobl ifanc gydag awtistiaeth. Fodd bynnag, mae’n rhaid nodi nad yw awtistiaeth o reidrwydd yn anabledd amlwg a gweledol ac mae’n anorfod felly bod plant ar y sbectrwm yn dod i gysylltiad gyda gwasanaethau plant ar lefel mwy cyffredinol. O ganlyniad mae Gwasanaeth Derwen hefyd yn gweithredu fel adnodd sy’n darparu cyngor ac arweiniad i wasanaethau plant ar lefel mwy cyffredinol.

1.9 Mae’n bwysig amlygu cyd-destun i chi fel aelodau o ran y cynnydd sylweddol sydd wedi bod yn niferoedd y plant sy’n derbyn diagnosis o awtistiaeth yn y Sir. Rydym yn rhagweld y bydd cynnydd sylweddol yn y galw ar wasanaethau plant yn ogystal â gwasanaethau oedolion dros y blynyddoedd i ddod. Mae wedi dod yn amlwg fod bwlch mewn gwasanaeth ar gyfer y plant hynny gydag awtistiaeth, ond heb anabledd dysgu, ac yn arbennig felly ar gyfer pobl ifanc 14-17 oed. Bydd cydweithio gyda’r Adran Addysg felly yn hanfodol wrth symud ymlaen.

## 2 Y CYNLLUN

2.1 Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae’n hanfodol gyda’r maes yma bod partneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd os am weld newid cynaliadwy ac effeithiol i’r dyfodol. Wedi derbyn adolygiad yr Ymgynghorydd allanol, bu i ni fel Cyngor ofyn i Gyngor Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr am eu cytundeb i sefydlu Bwrdd Prosiect Awtistiaeth isranbarthol, er mwyn creu Cynllun Awtistiaeth 2021-23 i’r ardal leol. Rydym yn ddiolchgar iawn i’n partneriaid am gytuno i’r cynnig.

2.2 Er y bydd aelodau’n gwbl ymwybodol o’r cyd-destun gwaith o ran Covid-19, mae’n bwysig nodi bod y gwaith sydd wedi digwydd ar draws partneriaid, a hefyd o ran gwaith yr Ymgynghorydd allanol, wedi digwydd tra hefyd yn ceisio ymdopi gydag un o heriau mwyaf yn hanes ni fel Cyngor a’r sector gyhoeddus ehangach. Mae felly yn destament i’n hymrwymiad i’r maes, bod y gwaith a ddechreuodd cyn y pandemig gychwyn, wedi parhau serch y pwysau aruthrol ar reolwyr, swyddogion a staff. Hoffwn felly gydnabod ein diolch i bawb am flaenoriaethu’r gwaith yn ystod cyfnod mor heriol.

2.3 Sefydlwyd Bwrdd Prosiect yn 2020, ac mae’r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae nifer o’r gwasanaethau yn cael eu darparu ar y cyd felly roedd yn hanfodol i’r Cynllun gael ei ddatblygu ar y cyd. Yn sgil yr adolygiad gan yr Ymgynghorydd,

roedd cyfle euraidd i'r Cyngor fod yn cynnig arweiniad a chyfeiriad clir i sicrhau fod cynllun amlasiantaethol yn cael ei datblygu gan wella profiadau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ar draws yr is-ranbarth.

2.4 Bu i'r Cyngor gyflwyno argymhellion adolygiad yr Ymgynghorydd allanol i'r Bwrdd Prosiect, a derbyniwyd hwy yn llawn ganddynt. Mae'r Bwrdd Prosiect wedi bod yn treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn rhoi sylw i'r argymhellion, er mwyn datblygu'r Cynllun Awtistiaeth yma, ynghyd â datblygu camau gweithredu.

2.5 Fel bydd yr aelodau'n ei weld o edrych ar y camau gweithredu, mae ambell gam gweithredu eisoes wedi ei roi ar waith y. Mae Cydlynydd eisoes wedi'i adnabod ac wedi cychwyn er mwyn gweithredu rhai elfennau. Yn y lle cyntaf, bydd yn cynorthwyo gydag elfennau o ddatblygu'r rhaglen hyfforddi a chanolbwyntio ar gasglu data a gwybodaeth gan asiantaethau perthnasol ynglŷn â phlant ac oedolion gydag awtistiaeth. Bydd hyn yn caniatau y Bwrdd Prosiect i gael darlun cadarn wrth adolygu'r Cynllun a chynllunio ymlaen unwaith fydd y Cynllun wedi fabwysiadu.

2.6 Er gwybodaeth i aelodau, mae yna Dîm Awtistiaeth Cenedlaethol (IAS) ac mae rôl ganolog ganddynt i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gyda nod penodol o gynnwys pobl awtistig yn y broses o ddatblygu a lledaenu adnoddau. Yn ogystal mae cymorth ôl-ddiagnostig yn cael ei ddarparu gan wasanaethau iechyd niwroddatblygiadol a'r IAS ar gyfer oedolion, rhieni plant, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Bellach mae cynrychiolydd o'r Adran Plant ac Oedolion yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Tîm Awtistiaeth Genedlaethol er mwyn rhannu gwybodaeth a hyrwyddo datblygiadau yn y maes.

2.7 Nid yw'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn gost niwtral ac mae angen adnoddau ychwanegol i'w wireddu. Ar gyfer ariannu'r elfen swyddi, amcangyfrifir y bydd angen buddsoddiad ychwanegol o £150,000 ar y pwynt hwn. Gan ei fod yn gynllun ar y cyd, y disgwyliad yw y bydd y partneriaid yn cyfrannu tuag at gyfanswm y gost. Rhagwelir felly y byddai cyfraniad Cyngor Gwynedd yn £50,000.

## 3 CYDRADDOLDEB

3.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau clir ar gyrff y sector cyhoeddus i atal gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â Nodweddion Gwarchodedig penodol. Y rhain yw – oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gredo, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. Mae dyletswyddau penodol yn ymwneud â darparu addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys pobl awtistig, i'w helpu i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

## 4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Cyflwynir adroddiad i'r Cabinet ar 30 Tachwedd yn gofyn iddynt gymeradwyo'r Cynllun Awtistiaeth 2021-23 a gynhwysir yn Atodiad 1.

**ATODIAD 1**

**Cynllun Awtistiaeth 2021-23**

| | |
|---|---|
| **1.** | **Diffiniad o Awtistiaeth** |
| “Defnyddir y term cyflwr sbectrwm awtistig i ddisgrifio’r grŵp o symptomau datblygiadol niwro cymhleth, o ddifrifoldeb amrywiol, sy’n cael eu nodweddu gan heriau mewn rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu a chan batrymau ymddygiad, meddwl a synhwyraidd cyfyngedig neu ailadroddus”<br>*(Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, Llywodraeth Cymru 2021)*<br><br>Mae cyflwr ar y sbectrwm awtistig (ASC) yn anabledd datblygiadol sy’n effeithio ar y ffordd y mae pobl yn cyfathrebu, yn ymddwyn, neu’n rhyngweithio ag eraill. Efallai y bydd gan rai pobl nodweddion amlwg iawn, eraill ddim. Y llinyn cyffredin yw gwahaniaethau mewn sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu ac ymddygiad o’u cymharu â phobl nad ydynt ar y sbectrwm. Mewn merched, gall y nodweddion a gyflwynir fod yn gynnil iawn, sy’n ei gwneud hi’n anoddach adnabod yr arwyddion oherwydd gall merched a menywod fod yn dda am gelu symptomau a chuddio’r cyflwr oddi wrth ffrindiau, teulu, a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd yn arbennig. | |
| **2.** | **Pwrpas y Cynllun** |
| **2.1** | Nod y cynllun yw darparu cyd-destun ar gyfer datblygu cyfeiriad strategol ar gyfer gwella canlyniadau i bobl ag awtistiaeth a'u gofalwyr. |
| **2.2** | Nododd adolygiad o'r ddarpariaeth gyfredol, a gynhaliwyd gan ymgynghorydd annibynnol ac adrodd i fwrdd prosiect yn cynnwys Gwasanaethau Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd, gwasanaeth Plant ac Oedolion Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl ag awtistiaeth, yn arbennig ar gyfer y rhai nad oes ganddynt anabledd dysgu. |
| **2.3** | Daeth y cod ymarfer awtistiaeth i rym ar 1 Medi 2021. Mae'n rhoi eglurder i fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) a / neu Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 a'r cyfrifoldebau a'r gwasanaethau y mae'n ofynnol iddynt eu darparu i gefnogi pobl awtistig yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Felly bydd y cynllun hwn yn darparu ffocws i sicrhau cydymffurfiad â'r Cod Ymarfer newydd. |
| **2.4** | O ystyried y cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor, cyflawnir rhai o'r argymhellion trwy ailgynllunio gwasanaethau neu ail-flaenoriaethu cyllidebau. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn gofyn am fwy o ffocws ar godi ymwybyddiaeth, dulliau partneriaeth a gwell cydgysylltu Gwasanaethau - bydd angen cyllid ychwanegol |

| | |
|---|---|
| | ar gyfer y mentrau hyn. Yn ogystal, mae gweithio mewn partneriaeth yn darparu cyfleoedd i alinio adnoddau cymunedol a denu cyllid y trydydd sector. |
| **3.** | **Materion Allweddol** |
| **3.1** | ***Mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol*** - nodwedd allweddol o bobl ag awtistiaeth yw anhawster cyfathrebu a mynegi eu hunain a'u hanghenion. Mae asesu unigolyn ag awtistiaeth heb anabledd dysgu yn heriol gan fod ei anghenion yn aml yn gudd a gall eu heffaith ddibynnu ar yr amgylchiadau. Mae teuluoedd a phobl ag awtistiaeth yn dweud wrthym fod gweithwyr proffesiynol yn aml yn colli neu'n methu â deall effaith anablu anawsterau cyfathrebu wrth gynnal asesiadau. Gall rhywun a all ymddangos yn gymwys gael anawsterau oherwydd eu hanallu i gyfathrebu neu ddeall sefyllfaoedd cymdeithasol y mae eraill yn eu cymryd yn ganiataol. |
| **3.2** | ***Diagnosis*** - Yn unol â'r strategaeth genedlaethol, mae angen i ni ddatblygu mynediad hawdd at ddiagnosis a chefnogaeth ôl-ddiagnostig gyda chydlynu i gynorthwyo pobl i gael mynediad at wasanaethau a rhwydweithiau gofal cymdeithasol. Mae angen datblygu rôl a chanllawiau cliriach i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd wrth aros am asesiad a diagnosis. |
| **3.3** | ***Cyngor a Chefnogaeth ar ôl cael diagnosis*** - Bydd yr ystod o anghenion pobl a'r gefnogaeth y bydd eu hangen arnynt ar ôl cael diagnosis yn amrywio'n aruthrol. Bydd gan y mwyafrif o bobl ag awtistiaeth heb anabledd dysgu anghenion gofal isel neu gymedrol a bydd eu gofynion yn ymwneud yn bennaf â chyfathrebu, adeiladu rhwydwaith cymdeithasol, hyrwyddo annibyniaeth, cyflogaeth, tai a chynnal sefydlogrwydd. Fodd bynnag, bydd gan rai anghenion critigol neu sylweddol a bydd angen cefnogaeth a goruchwyliaeth 24 awr arnynt. Mae mynediad at gyngor a chefnogaeth ar ôl diagnosis yn amrywiol. Mae angen datblygu canllawiau clir ynghylch lefel a math yr ymyrraeth, y cyngor, y gefnogaeth ac adolygu ôl-ddiagnosis. Byddai hyn yn sicrhau bod pobl yn gwybod / yn gallu cysylltu â gwasanaethau cymorth perthnasol. |
| **3.4** | ***Pobl Ifanc yn y cyfnod pontio -*** Mae'r gyfran fwyaf o blant ag ASD a ddarperir gyda gwasanaeth gan Dîm Integredig Derwen yn y categori 14-17 oed. Felly mae trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn 'pinch point' ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r llwybr trosglwyddo yn gymhleth, gan nad yw oedran trosglwyddo i wasanaethau oedolion yr un peth ym mhob gwasanaeth. Mae angen canolbwyntio mwy ar y plant hynny ag awtistiaeth nad oes ganddynt anabledd dysgu ac felly na fyddent yn derbyn gwasanaeth gan Derwen ar hyn o bryd. |
| **3.5** | ***Hyfforddiant*** - Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae tystiolaeth y gall codi ymwybyddiaeth sylfaenol a darparu hyfforddiant ar awtistiaeth wella gallu pobl i gyfathrebu â phobl ag awtistiaeth yn sylweddol. Rydym yn datblygu deunyddiau hyfforddi â ffocws ar ddeall awtistiaeth, gan gynnwys llyfryn gwybodaeth a modiwl e-ddysgu. Rydym wedi dechrau mapio |

| | | |
|---|---|---|
| | gofynion addysg a hyfforddiant ymarferwyr. Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Mon a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr byddwn yn datblygu heini o hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol. Bydd hyn yn cael ei lywio gan waith sy'n cael ei wneud ar lefel genedlaethol trwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol.<br>Yn ogystal, bydd disgwyl i gyrff statudol gynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant awtistiaeth ar gyfer eu staff, wedi'i deilwra i'w hanghenion proffesiynol. | |
| **3.6** | ***Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol*** - Mae'r Gwasanaeth yn cynnig asesiad diagnostig i oedolion, ond nid ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Mae angen cryfhau'r cysylltiad gyda'r gwasanaeth o du Gwasanaethau plant a Gwasanaeth oedolion. Mae datblygu patrwm o rannu gwybodaeth a chydweithio ar ddatblygu adnoddau defnyddiol yn y maes yn hanfodol i ddylanwadu ar wella gwasanaethau yn lleol. | |
| **3.7** | ***Trydydd Sector*** - Mae angen nodi partneriaid sy'n gallu darparu gwasanaethau lefel isel i bobl ag ASD. Gall y sector gwirfoddol chwarae rhan wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ymarferol medrus, lefel isel a chost isel i bobl ifanc efo awtistiaeth gyda neu heb ddiagnosis ffurfiol o Anableddau Dysgu yng Ngwynedd y mae angen ei gyfarch. Byddai cyflwyno model tebyg o'r fath yng Ngwynedd yn darparu gwasanaeth effeithiol sy'n gwella ansawdd bywyd pobl ifanc efo awtistiaeth; helpu i atal argyfyngau rhag digwydd, ond bydd hefyd yn lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau statudol. Bydd yr angen am wasanaethau o'r fath yn dod yn fwy a mwy pwysig os bydd y cynnydd presennol mewn diagnosis ASD yn arwain at alw uwch ar wasanaethau statudol. | |
| **4.** | **Camau gweithredu ar gyfer 2021-22** | **Amserlen** |
| **1** | **Sefydlu Bwrdd Partneriaeth Awtistiaeth Leol** - Yn unol â'r Cod Ymarfer, rhaid i fyrddau partneriaeth ranbarthol, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth am y graddau y mae canlyniadau'n cael eu gwella ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i bobl awtistig a'u teulu neu ofalwyr. Mae angen i welliannau gwasanaeth alinio â chynllun gweithredu strategol awtistiaeth Llywodraeth Cymru. Mae angen adolygu'r cynllun lleol yn flynyddol hefyd. Ar hyn o bryd mae'r bwrdd prosiect yn cynnwys partneriaid allweddol o'r asiantaethau statudol. Felly, argymhellir bod y Bwrdd Prosiect cyfredol yn trawsnewid i Fwrdd Partneriaeth Awtistiaeth Leol, i gynnwys cynrychiolaeth ar gyfer pobl awtistig. Bydd hyn yn sicrhau goruchwyliaeth o ddatblygu a gwella gwasanaethau, casglu data strategol allweddol ac adolygiad blynyddol o'r cynllun. | **Wedi sefydlu** |
| **2** | **Penodi Cydlynydd / Swyddog Prosiect ar gyfer datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth** - Ar hyn o bryd mae prinder data mewn perthynas â niferoedd a phroffiliau plant | **Tachwedd 2021** |

| | | |
|---|---|---|
| | a phobl ifanc sy'n cael diagnosis o ASD. Bydd sefydlu rôl i goladu'r wybodaeth hon ar draws yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd ac addysg yn cynorthwyo wrth gynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau. Byddai'r swydd hefyd yn cynnig cyswllt cyson â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol, gan osgoi unrhyw ddyblygu, nodi bylchau a datblygu rhwydwaith ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i bobl awtistig. Bydd y swydd hefyd yn cynorthwyo i weithredu elfennau o’r cynllun gweithredu. | |
| **3** | **Sefydlu Rôl Ymarferydd Pontio ASD (14-25 oed)** - Byddai'r swydd hon wedi'i chydleoli ar draws Gwasanaethau Anabledd Dysgu plant ac oedolion ac yn cynnwys mynediad i’r plant a'r bobl ifanc hynny lle nad oes diagnosis o anabledd dysgu. | **Ebrill 2022 yn ddarostyngedig ar fuddsoddiad ariannol** |
| **4** | **Sefydlu Rôl Ymarferydd ASD (Cefnogaeth yn ystod asesiad / diagnosis) (14-25 oed) -** Mae cynnydd yn y galw am asesu ASD yn golygu bod rhestr aros. Byddai darparu cyngor a chefnogaeth ar y pwynt hwn yn cynorthwyo i reoli'r galw am wasanaethau ôl-ddiagnosis ac yn hyrwyddo cymorth ac ymyrraeth gynnar gyda'r nod o leihau'r galw am wasanaeth statudol ar ôl cael diagnosis. | **Ebrill 2022 yn ddarostyngedig ar fuddsoddiad ariannol** |
| **5** | **Hyfforddiant ASD** - Mae rhaglen aml-haen o hyfforddiant, gan gynnwys e-ddysgu, yn cael ei datblygu. Darperir hyn ar draws gwasanaethau cyffredinol i gynyddu ymwybyddiaeth awtistiaeth yn ogystal â hyfforddiant mwy arbenigol i ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl awtistig.<br><br>Cynnal awdit o anghenion hyfforddiant staff, gan roi ystyriaeth i lefel cysylltiad rolau unigol gyda pobl awtistig. Bydd hyn yn ystyried gwaith uniongyrchol gyda pobl awtistig yn ogystal a swyddi lle mae posiblrwydd, drwy cyswllt wyneb yn wyneb a’r cyhoedd, i ddod i gysylltiad ac felly angen lefel o ymwybyddiaeth am eu anghenion. | **Medi 2021 – Mawrth 2022**<br><br>**Tachwedd 2021 – Mawrth 2022** |
| **6** | **Ymgysylltu â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol** - Cynnal strategaeth ymgysylltu sydd o fudd i'r ddwy ochr sy'n osgoi unrhyw botensial ar gyfer dyblygu, gan sicrhau eglurder gwybodaeth a chyngor a ddarperir i oedolion a phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn cynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â chanlyniadau i bobl awtistig yng Ngwynedd. | **Eisoes yn digwydd** |
| **7** | | **Ebrill 2022** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Archwilio'r potensial ar gyfer datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth y trydydd sector** - mae angen ymchwilio ymhellach i ddatblygu gwasanaethau cymorth ymarferol medrus, lefel isel. Mae yna enghreifftiau o weithgareddau ymarferol yn cael eu cynnal gan sefydliadau trydydd sector sy'n derbyn Llywodraeth Cymru a chyllid grant arall. Gallai cyflwyno model o'r fath yng Ngwynedd ddarparu gwasanaeth effeithiol i wella ansawdd bywydau pobl ag awtistiaeth a rheoli unrhyw alw ychwanegol ar wasanaethau statudol. | |

Mae hwn yn gynllun o dan oruchwyliaeth Bwrdd Prosiect ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Mon a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd yn cael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd fframwaith monitro’n cael ei ddatblygu ar y cyd gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ogystal mae adolygiad gwasanaethau niwroddatblygiadol wedi cychwyn ers Chwefror 2021. Bydd yr adolygiad hwn wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2022 ac o ganlyniad yn hysbysu ail gymal Cynllun Gweithredu’r Llywodraeth ar gyfer 2022-23. Bydd unrhyw ddeilliannau o’r gwaith hwn yn cael ei adrodd i’r Bwrdd ac yn cael ei gynnwys yn y cynllun fel bo’n briodol.